CYFRES C2

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Luc 19: 1-10

ADNOD
ALLWEDDOL
Luc 19: 10

Gwers 1 Iesu'n cwrdd â dyn yn Jericho

Roedd y dyn yn y Darlleniad o'r Beibl yn gweithio yn ninas Jericho yn casglu trethi.

C Ysgrifennwch ei enw yma.

1

Mewn rhai ffyrdd, bu'n llwyddiannus iawn yn ei waith.

C Darllenwch adnod 2 ac ysgrifennwch ddau reswm dros ddweud hyn.

Roedd yn
Roedd yn

2

Gan amlaf, doedd pobl ddim yn hoffi casglwyr trethi gan fod llawer ohonyn nhw'n gwneud i bobl dalu mwy nag y dylent. Hefyd, roedd pobl yn meddwl eu bod nhw'n 'fradwyr' am eu bod yn gweithio i'r Rhufeiniaid. Ond mae'n debyg bod Sacheus wedi blino ar fod yn anonest a'i fod yn chwilio am fywyd newydd, gwell.

C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn gywir neu'n anghywir.

Roedd bron â thorri ei fol eisiau gweld Iesu. .....

Gwthiodd ei ffordd trwy'r dyrfa i geisio siarad â Iesu. .....

Gan mai dyn bach oedd Sacheus, roedd yn anodd iddo weld Iesu. .....

Dringodd i ben derwen i guddio oddi wrth Iesu. .....

Dringodd sycamorwydden er mwyn cael gweld Iesu. .....

5

Efallai fod ofn ar Sacheus na fyddai Iesu eisiau dyn drwg ac amhoblogaidd fel fe i fod yn un o'i ddilynwyr. Cafodd wybod yr ateb cyn hir.

C Ysgrifennwch beth ddywedodd Iesu pan arhosodd wrth y goeden.



2

Mae'r geiriau hyn yn dweud wrthym fod Duw yn ein caru, er ein bod yn bechaduriaid, a'i fod yn barod i'n newid ni, os ydyn ni wir eisiau hynny. Mae'n rhaid i Sacheus benderfynu sut i ymateb i eiriau Iesu. A fyddai'n UFUDDHAU iddo neu yn ei ANWYBYDDU?

C Ysgrifennwch yr adnod sy'n dweud wrthym beth wnaeth Sacheus.

2

Dyna'r peth iawn i'w wneud! Ydych chi wedi derbyn Iesu i'ch bywyd yn Arglwydd a Gwaredwr? (Darllenwch Ioan 1:12)
Y diwrnod hwnnw, daeth Sacheus i groesffordd yn ei fywyd. Mae ei eiriau yn adnod 8 yn dangos ei fod wedi newid. Byddai'n ymddwyn yn wahanol o hyn ymlaen gan ddilyn Iesu. Mae geiriau Iesu wrtho yn adnodau 9 a 10 yn dangos ei fod wedi croesawu ac wedi 'achub' y casglwr trethi!

POS GEIRIAU

Darllenwch adnodau 8 – 10 a rhoi cylch o gwmpas y cwestiynau isod yn y Pos Geiriau. (Mae'r atebion yn darllen i fyny, i lawr, yn ôl, ymlaen ac ar letraws.)

I lawr
1. Pa gyfran o'i eiddo oedd am ei rhoi i ffwrdd?
2. Pa deitl ddefnyddiodd Iesu wrth sôn amdano'i hunan? (3 gair)
3. Pa fath o bobl fyddai'n elwa o addewid Sacheus?
4. Pa deitl ddefnyddiodd Sacheus wrth siarad â Iesu?
5. Dywedodd Iesu fod Sacheus yn fab i _ _ _ _ _ _ _.

Ar draws
6. Beth ddywedodd Iesu oedd wedi dod i dŷ Sacheus?



6

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol

2

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 4: 5-30

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 4: 29

Gwers 2 Iesu'n cwrdd â gwraig wrth ffynnon.

Yn y wers ddiwethaf, cawsom wybod nad oedd yr Iddewon yn hoffi casglwyr trethi. Yn y wers hon, cawn wybod am grŵp arall o bobl nad oedden nhw'n eu hoffi.

C **Darllenwch adnod 9 ac ysgrifennu enw'r grŵp hwn o bobl.** 1

S __ __ __ __ __ __ __ d.

Yn y bennod hon, roedd Iesu'n mynd trwy Samaria a daeth i ryw dref.

C **Beth oedd ei henw?** 1



Doedd yr Iddewon ddim yn hoffi'r bobl hyn a doedden nhw ddim eisiau cael dim i'w wneud â nhw am eu bod wedi cymysgu â phobl nad oedden nhw'n Iddewon. Doedden nhw ddim yn Iddewon pur. Ond roedd Iesu'n wahanol. Mae e'n caru PAWB, sdim ots beth yw eu lliw na'u hil! Dewch i weld sut y bu iddo fe drin y wraig o Samaria.

C **Tynnwch linell trwy'r ATEBION ANGHYWIR I GYD yn y brawddegau hyn.** 6

Gan ei fod wedi blino, eisteddodd Iesu wrth GOEDEN / AFON / FFYNNON.

Daeth gwraig i CHWILIO AM EI DEFAID / NÔL DŴR / OLCHI DILLAD.

Gofynnodd Iesu iddi AM DDIOD / FYND I FFWRDD / AM FWYD.

Roedd hi'n synnu o'i glywed gan mai SAMARIAD / IDDEW / RHUFEINIWR

oedd ef a'i bod hi yn SAMARIAD / ROEGWRAIG / IDDEW.

Doedd hi ddim yn deall yn iawn pan ddywedodd Iesu y gallai roi LLAWER O ARIAN / DŴR BYWIOL / PERSAWR DRUD iddi.

Roedd Iesu eisiau i'r wraig ddeall fod ganddo RODD iddi a fyddai'n ei bodloni yn llwyr ac yn rhoi "bywyd tragwyddol" iddi. Wrth gwrs, EF EI HUNAN oedd y RHODD. Y cwestiwn mawr oedd: A fyddai hi'n ei dderbyn gan gredu ynddo? Roedd hi'n awyddus iawn i gael y rhodd beth bynnag!

C **Ysgrifennwch beth ddywedodd hi yn adnod 15.** 1

C **Wedyn, newidiodd Iesu'r pwnc.**

Gofynnodd iddi alw ar rywun. Pwy?

1

Mae'n siŵr iddi gael sioc o glywed bod Iesu'n gwybod cymaint amdani! Roedd yn gwybod popeth! Roedd hi'n siŵr ei fod yn rhywun arbennig iawn.

C **Beth ddywedodd hi amdano? (adnod 19)**



1

Cyn hir, daeth hi i ddeall ei fod hyd yn oed yn fwy na hynny!

C **Llanwch y bylchau yn y frawddeg hon (adnod 25)**

2

"IESU yw'r M __ __ __ __ __ neu'r C__ __ __ __."

Mae ystyr y ddau air yn debyg iawn i'w gilydd. Maen nhw'n deitlau am y Gwaredwr yr oedd Duw wedi addo'i anfon. Dywedodd Iesu wrth y wraig mai ef yw'r Gwaredwr hwnnw.

C **Ysgrifennwch beth ddywedodd Iesu wrthi yn adnod 26.**



1

C **Atebwch y cwestiynau hyn.**

Pwy gyrhaeddodd wrth i'r sgwrs ddod i ben?

Pam roedd y disgyblion yn synnu?

Ble'r aeth y wraig?

Beth adawodd hi wrth y ffynnon?

4

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n esbonio beth ddywedodd hi wrth y dynion yn y ddinas.**

2

Roedd y wraig o Samaria yn sicr mai Iesu oedd y Meseia (y Crist). Roedd hi'n ei gredu yn ei chalon. Roedd hi wedi derbyn y "dŵr bywiol" a gynigiodd Iesu iddi. Ydych CHI'n credu? Ydych CHI wedi derbyn "rhodd Duw, sef bywyd tragwyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd"? (Rhufeiniaid 6:23).

Enw

DARLLENWCH
Ioan 3: 1-16

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 3: 16

Gwers 3 Iesu'n cwrdd â dyn yn y nos

Bob blwyddyn, rydyn ni wrth ein bodd yn dathlu'n pen-blwydd. Mae'n hwyl cael cardiau a phresantau! Efallai y cawn ni barti a chacen â chanhwyllau arni! Yn y Darlleniad hwn o'r Beibl, mae Iesu'n esbonio sut y gallwn ni gael ein "geni eto" neu ein "geni o'r newydd".

C Darllenwch adnod 1 ac ysgrifennu enw'r dyn yr oedd Iesu'n siarad ag ef.

Ei enw:

2

Ysgrifennwch un ffaith amdano.

Roedd yn:

Wrth siarad â'r dyn, dywedodd Iesu sawl gwaith ei bod yn rhaid i ni gael ein "GENI ETO" er mwyn bod yn rhan o "Deyrnas Dduw".

C Copïwch o'r Beibl unrhyw UN frawddeg lle mae Iesu'n dweud hyn. (Mae gennych sawl brawddeg i ddewis ohonynt).

2

Doedd Nicodemus ddim yn deall yn iawn! A oedd Iesu'n golygu ei bod yn rhaid iddo fod yn fabi bach eto a chael ei eni fel y gwnaeth y tro cyntaf?

C Ysgrifennwch rif yr adnod lle'r oedd Nicodemus yn sôn am y broblem hon.

1

Adnod

Mae'r syniad hwnnw'n anghywir! Beth felly oedd Iesu'n ei olygu wrth ddweud "geni o'r newydd"? Cawn ein geni y tro cyntaf ar DDECHRAU EIN BYWYD.
Pan gawn ein geni o'r newydd, rydym yn cael BYWYD NEWYDD. Mae'r bywyd hwn yn wahanol i'r bywyd naturiol a gawn pan gawn ein geni'n fabanod.

C Pa air yn adnod 16 sy'n disgrifio'r bywyd newydd hwn?

1

Felly mae cael ein "GENI O'R NEWYDD" yn golygu cael BYWYD DUW. Mae hwn yn fywyd gwell ac nid yw byth yn dod i ben. Mae Duw yn ei gynnig i ni fel rhodd am ddim.
(Rhufeiniaid 6:23)

Mae Duw yn cynnig bywyd tragwyddol i ni gydag UN amod. Mae adnodau 15 ac 16 yn dweud beth yw'r amod hwnnw.

C Ysgrifennwch yn y blwch beth y mae Duw yn disgwyl i ni ei wneud.

1

Ydych chi'n cofio'r stori yn yr Hen Destament y soniodd Iesu wrth Nicodemus amdani? (Darllenwch hi eto yn Numeri 21: 4-9). Cododd Moses neidr bres ar bolyn. Roedd yr Israeliaid, a oedd yn marw ar ôl cael eu brathu gan nadroedd, yn cael BYWYD NEWYDD os oedden nhw'n edrych ar y sarff bres. Heddiw, gan fod Iesu wedi cael ei godi ar y Groes, cawn ni FYWYD TRAGWYDDOL (hynny yw, cawn ein geni o'r newydd) os edrychwn arno gan gredu ynddo â'n holl galon.

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

3

CROESAIR

Atebwch y cliwiau sy'n dod o'r Darlleniad o'r Beibl.

Cliwiau i Lawr

1. Daeth Nicodemus at Iesu yn y _ _ _.

2. Galwodd Iesu ei hunan yn _ _ _ _ _ _ _ _.
(3 gair)

4. Carodd Duw y _ _ _.

5. Dywedodd Iesu ei fod wedi esgyn i'r _ _ _ a disgyn o'r _ _ _.

6. Galwodd y dyn Iesu yn _ _ _ _ _.



Cliwiau ar Draws

1. Enw'r dyn a ddaeth at Iesu.

3. Rhaid i bobl gael eu geni o'r _ _ _ _ _ _ i gael mynd i Deyrnas Dduw.

5. Gair arall am sarff.

7. Dywedodd Iesu fod yr Ysbryd yn debyg i'r _ _ _ _ _.

8. Dywedodd Iesu fod Duw'n caru'r byd gymaint nes iddo roi ei unig _ _ _.

10

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 9: 1-38

ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 9: 25

Gwers 4 Iesu'n cwrdd â dyn dall.

Roedd y dyn hwn wedi'i eni'n ddall! Dyna drist! Ond roedd Iesu'n cydymdeimlo ag ef a defnyddiodd ei allu i roi golwg iddo.

C Rhowch ✔ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn gywir neu'n anghywir.

Cardotyn oedd y dyn. ☐

Poerodd Iesu arno. ☐

Gwnaeth glai a'i roi ar lygaid y dyn. ☐

Anfonodd ef i bwll Bethesda. ☐

Ar ôl i'r dyn ufuddhau i Iesu, roedd yn gallu gweld yn iawn. ☐

5

Rhaid bod y dyn wrth ei fodd i gael gweld pobl a phethau am y tro cyntaf! Ond doedd pawb ddim yn hapus. Dechreuodd pobl ddadlau a oedd Iesu'n ddyn da ai peidio.

C Darllenwch adnodau 13-17 ac atebwch y cwestiynau isod.

Pwy oedd yr arweinwyr Iddewig oedd yn dadlau?

Pam oedd rhai ohonyn nhw'n credu nad oedd Iesu "o Dduw"?

Beth oedd y rheswm oedd gan rai eraill am ddweud na allai fod yn bechadur?

Beth ddywedodd y dyn a fu'n ddall am Iesu yn adnod 17?

4

Roedden nhw'n anghytuno am Iesu. Mae pobl yn dal i anghytuno am Iesu heddiw. Mae rhai pobl O BLAID Iesu a rhai pobl YN EI ERBYN. Efallai eich bod yn meddwl "A oes ots go iawn?" Darllenwch Ioan 3:36. Lle rydych chi'n sefyll yn y fan hyn?

Dechreuodd yr Iddewon gredu nad oedd y dyn wedi'i eni'n ddall mewn gwirionedd.

C I bwy y gofynnon nhw a oedd wedi cael ei eni'n ddall?

1

Ond roedden nhw'n dal i ddadlau am Iesu. Gwnaeth y Phariseaid eu gorau i gael y dyn i ddweud bod Iesu'n bechadur ond roedd e'n gwrthod gwneud hynny!

C Ysgrifennwch beth a ddywedodd yn yr Adnod Allweddol?

2

C Cyn hir, daeth yn ddewrach a dweud ei farn yn onest am Iesu. Copïwch adnod 33.

1

Felly, taflwyd ef allan o'r synagog gan yr Iddewon (adnodau 22 a 34). Gwelodd nad oedd bob amser yn hawdd credu yn Iesu. Ond pan nad oedd ar neb arall ei eisiau, roedd Iesu'n FFRIND DA iddo. Daeth ato a'i helpu i ddeall a chredu.

C Disgrifiwch yn eich geiriau eich hunan beth ddigwyddodd yn adnodau 35-38.

3

Gallwn ninnau ddibynnu ar Iesu i'n cefnogi a'n helpu ni os credwn ynddo go iawn.

C Ysgrifennwch ar y llinellau pwy ddywedodd pob un o'r pethau isod:-



.....



.....



.....



.....

4

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120